



TGAU – **NEWYDD**

**3010N10-1**

**LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1: Barddoniaeth**

**HAEN SYLFAENOL**

**DYDD GWENER, 13 IONAWR 2017 – BORE**

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

## **DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb pinc 16 tudalen.

## **CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

**UN CWESTIWN GORFODOL** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

## **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus. Yn y cerddi, mae'r beirdd yn rhoi darlun o berthynas rhwng bachgen a merch i ni. CYMHARWCH y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG neu'n WAHANOL.**

**Dylech wneud hyn drwy:**

- **ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:**

**Pa fath o ddarlun o BERTHYNAS mae'r ddau fardd yn ei roi ni?**

**Beth mae'r cerddi'n ei ddweud amdanom ni fel pobl?**

**Ydy hi'n well siarad dros y cyfrifiadur neu wyneb yn wyneb?**

- **edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am O LEIAF BEDAIR NODWEDD ARDDULL/MESUR a dweud pam maen nhw'n effeithiol**
- **nodi pa un o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.**

**Wrth ateb, cofiwch DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi'ch sylwadau. [40]**

**Y FERCH WRTH Y BAR YNG NGHLWB IFOR**

Yn fan hyn, aeafau'n ôl,  
yn ddifaddau o feddwol,  
fe'i gwelais; estynnais stôl.

Ordrais beint ar draws y bar  
a'i gwyllo, yn llawn galar,  
yn ei sgert trwy'r mwg sigâr.

Yn ei llygaid tanbaid hi  
roedd 'na gefnfor o stori,  
a hyder a direidi

yn eu llawnder i'n herio,  
trwy ryw wyrth, y dôi ein tro  
ond a dal i'w lled-wyllo...

Ym mrad yr edrychiadau,  
yn sŵn ein dawns ni ein dau,  
am ei swyn mi es innau

yn rhy ddedwydd freuddwydiol,  
yn ddifaddau o feddwol,  
yn fan hyn, aeafau'n ôl.

**RHYS IORWERTH**

## **CYSYLLTU**

**Er mynd i'r un ysgol, er byw'n yr un dre',  
rydym yn rhannu ein cusanau dros y we.**

**Mae hi'n byw tua chwarter awr lawr y lôn,  
ond rydym yn siarad â'n gilydd dros linell y ffôn.**

**Yn ôl ei brawddegau sy'n llenwi fy sgrîn  
'dyw hi byth yn siomedig, 'dyw hi byth yn \*flin.**

**Pob tro mae hi'n chwerthin mae'n gwenu fel hyn :-)  
'sdim raid iddi fflachio ei dannedd gwyn, gwyn.**

**Er bod yn ei chwmni bob nos am ddwy awr,  
er siarad a siarad, mae yna bellter mawr.**

## **MEIRION MACINTYRE HUWS**

**\*yn flin - yn grac (yn y De)**

## **DIWEDD Y PAPUR**